



ASIANTAETH
SAFONAU
BWYD



Cynllun Iaith Gymraeg 2008-2012



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd Gorffennaf 2008
Dyluniwyd gan Celeritas UK Ltd. Argraffwyd gan Formara Ltd. 500

© Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd yn Lloegr ar bapur yn cynnwys o leiaf 75% o ffeibr wedi'i ailgylchu
FSA/1274/0708



Pan fyddwch wedi gorffen â'r
cyhoeddiad hwn, cofiwch
ei ailgylchu

Cynllun Iaith Gymraeg

Asiantaeth Safonau Bwyd

2008-2012

4 Mehefin 2008



Rhagair




Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg yr Asiantaeth Safonau Bwyd 2008-2012 ei baratoi yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Dyma ail Gynllun yr Asiantaeth ac fe'i cymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 4 Mehefin 2008.

Mae'r Cynllun yn gosod llwyfan i'r Asiantaeth barhau i adeiladu ar ei hymrwymiad i roi'r defnyddiwr yn gyntaf. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, rydym wedi

sefydlu Uned Iaith fewnol ers mis Hydref 2007 sy'n cynnig ystod eang o wasanaethau er mwyn sicrhau bod y Cynllun yn cael ei roi ar waith yn llwyddiannus.

Rydym yn cydnabod fod nifer mawr o'n defnyddwyr yn siarad Cymraeg ac mae'r Cynllun hwn yn nodi'r camau y bydd yr Asiantaeth yn eu cymryd i sicrhau y bydd yn cynnal ei busnes yn ddwyieithog. Bydd y ddarpariaeth Gymraeg, gan gynnwys ein cyhoeddiadau, ein gwefannau a'n cyfweiliadau a'r wasg yn cael eu cyflwyno mewn iaith ddealladwy er mwyn gwneud yn siŵr bod negeseuon allweddol yr Asiantaeth yn cael eu cyfleu'n glir yn y ddwy iaith.

Gyda phleser mawr, dyma gyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg 2008-2012 yr Asiantaeth Safonau Bwyd.



TIM SMITH

Prif Weithredwr, Asiantaeth Safonau Bwyd

Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	2
Amdanom ni	3
Cynllunio a chyflwyno gwasanaeth	7
Ymdrin â siaradwyr Cymraeg	9
Ein hwyneb cyhoeddus	13
Rhoi'r Cynllun ar waith	18
Atodiad A – System Blaenoriaethu Cyfieithu	22
Atodiad B – Siart Lif Cyfieithu ar y Pryd	24

Cyflwyniad

- 1.1 O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg. Roedd Cynllun cyntaf yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn weithredol rhwng 2002 a 2008 ac mae'r Cynllun hwn felly yn ei olyn.
- 1.2 Mae'n disgrifio sut y byddwn yn gweithredu, cyn belled ag y bo'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.
- 1.3 Mae'r Cynllun hwn yn ymdrin â'r gwasanaethau hynny yr ydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Yn y Cynllun hwn, ystyr y term **cyhoedd** yw unigolion, personau cyfreithiol a chyrrff corfforaethol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei gyfanrwydd, neu ran o'r cyhoedd, ynghyd ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau, yn ogystal â chyrrff cyhoeddus megis Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd Lleol. Mae Cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Heblaw am yr uchod, fodd bynnag, nid yw'n cynnwys personau sy'n gweithredu mewn swyddogaeth sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau swyddogol o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair cyhoedd wrth iddynt gyflawni'r swyddogaethau swyddogol hyn.
- 1.4 Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch cwmpas a phwrpas Cynlluniau Iaith Gymraeg ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn www.bwrdd-yr-iaith.org.uk
- 1.5 Paratowyd y Cynllun hwn o dan Adran 21 y Ddeddf ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 y Ddeddf. Daeth i rym ar 4 Mehefin 2008.

Amdanom ni

Ein gweledigaeth

“Bwyd diogel a bwya’n iach i bawb”

Ein gwerthoedd

2.1 Mae popeth a wnawn yn adlewyrchu’r weledigaeth hon â’n gwerthoedd craidd:

- Rhoi’r defnyddiwr yn gyntaf
- Bod yn agored ac yn annibynnol
- Yn seiliedig ar wyddoniaeth a thystiolaeth

Ein hegwyddorion ar waith

2.2 Fel sefydliad, cyflogwr ac unigolion, rydym yn gwerthfawrogi:

- Gonestrwydd, gwrthrychedd ac uniondeb
- Herio ar gyfer gwelliant parhaus, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd
- Amrywiaeth, cydweithredu a pharch.

Yr hyn a wnawn

2.3 Fel un o adrannau’r Llywodraeth, corff rheoleiddio annibynnol a chorff diogelu defnyddwyr, rydym yn defnyddio’r dystiolaeth orau sydd ar gael ac yn gweithio gyda:

- Busnesau, o’r fferm i’r fforc, er mwyn eu helpu i gadw defnyddwyr yn ddiogel
- Awdurdodau lleol a chyrff sy’n gorfodi cyfreithiau bwyd eraill, er mwyn eu helpu i gymryd camau cymesur, amserol a phenderfynol
- Defnyddwyr i roi gwybodaeth ddibynadwy a chyfredol er mwyn eu helpu i wneud dewisiadau iach am fwyd.

Ein Cynllun Strategol hyd at Awst 2010

2.4 Nodau allweddol ein Cynllun Strategol hyd at 2010 yw:

Diogelwch bwyd

- Lleihau ymhellach ar glefydau a gludir mewn bwyd
- Darparu rheolaethau cymesur ar gyfer BSE¹ a TSE² yn seiliedig ar yr wybodaeth wyddonol ddiweddaraf
- Adeiladu a chynnal ymddiriedaeth rhanddeiliaid er mwyn mynd i'r afael â materion diogelwch bwyd.

Bwyta ar gyfer iechyd

- Galluogi defnyddwyr i ddewis deiet iachach a helpu i leihau clefydau sy'n gysylltiedig â deiet.

Dewis

- Galluogi defnyddwyr i ddewis ar sail gwybodaeth
- Amddiffyn defnyddwyr rhag twyll bwyd ac arferion anghyfreithlon.

Sut y byddwn yn cyflawni hyn

- Gwella diogelwch defnyddwyr drwy wella cydymffurfiaeth.

2.5 Un o'r prif feysydd y mae'r Cynllun Strategol yn canolbwyntio arno yw darparu mewn modd sy'n gynaliadwy – mae cynnydd cymdeithasol yn un o'n tri philer datblygu cynaliadwy. Rydym yn cyflawni ein dyletswyddau statudol ar gydraddoldeb hil ac ystyriaethau eraill sy'n ymwneud ag amrywiaeth wrth gynnal asesiadau effaith ac asesiadau cynaliadwyedd.

2.6 Mae ein Cynllun Strategol wedi ei gyhoeddi'n llawn, yn Gymraeg ac yn Saesneg, ar ein gwefan yn:

food.gov.uk/aboutus/publications/busreps/strategicplan

Gellir archebu copïau gan Adran Gyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd dros y ffôn ar 0845 606 0667, minicom ar 0845 606 0678, ffacs ar 020 8867 3225, neu drwy'r e-bost oddi wrth:

foodstandards@ecgroup.co.uk

¹ BSE - Mae BSE yn dalfyriad o Enseffalopathi Sbyngffurf Buchol. Fe'i gelwir hefyd yn 'glefyd y gwartheg gwallgof' ac mae'n effeithio ar wartheg yn hytrach na lloï. Er mai dim ond mewn gwartheg y mae BSE wedi'i ganfod, mae'n perthyn i grŵp penodol o glefydau, ac fe all nifer o'r rhain effeithio ar bobl.

² TSE - Mae TSE yn dalfyriad o Enseffalopathi Sbyngffurf Trosglwyddadwy. Mae BSE yn fath o TSE.

Atebolrwydd Seneddol yng Nghymru

- 2.7 Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ariannu'r ASB yng Nghymru. Pennaeth yr ASB yng Nghymru yw'r Cyfarwyddwr, ac mae'n atebol i Brif Weithredwr yr ASB. Mae'r ASB yn atebol am ei gweithgareddau yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy Weinidog y Cynulliad dros lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac mae'r ASB yn cynghori'r Gweinidog ar ddiogelwch bwyd a pholisi a deddfwriaeth ar safonau. Mae Pwyllgor Cyngori ar Fwyd Cymru yn rhoi gwybodaeth a chyngor annibynnol i'r ASB ar bob mater sy'n ymwneud â diogelwch a safonau bwyd yng Nghymru.

Ein gweledigaeth ar gyfer amrywiaeth

'Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn lle ble mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae gan bawb ymdeimlad cryf o berthyn, yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn llawn ym mhrosesau allweddol yr Asiantaeth ac yn gwerthfawrogi amrywiaeth ei gilydd, eu safbwyntiau unigryw a'u cyfraniadau at waith yr Asiantaeth.'

- 2.8 Bydd gwireddu ein gweledigaeth ar gyfer amrywiaeth ym mhob agwedd ar ein gwaith yn ein galluogi i gyflawni ein gwerthoedd craidd yn fwy effeithiol ac yn effeithlon, ac i gyrraedd ein nodau strategol.

Cwynion neu ymholiadau

- 2.9 Weithiau, bydd hyd yn oed y sefydliadau gorau yn mynd ar y trywydd anghywir. Er mwyn gwneud cwyn am yr ASB, gan gynnwys cwynion am y Cynllun Iaith Gymraeg, dylech gysylltu yn y lle cyntaf â'r sawl sydd wedi bod yn delio â chi. Byddwn yn ceisio datrys unrhyw broblem yn gyflym, gan fynd ati i esbonio'r hyn a wnaethom a pham. Os byddwch yn anhapus â'n hymateb, dylech gyflwyno eich pryderon gerbron Cyfarwyddwr ASB Cymru.

- 2.10 Os ydych yn dal i deimlo'n anhapus a'ch bod am fynd â'ch cwyn ymhellach, dylech gysylltu â:

Cydlynnydd Cwynion yr ASB

Philip Clarke
 Pennaeth Rheoleiddio, Materion Rhyngwladol a Thryloywder,
 Room 115B Aviation House,
 125 Kingsway,
 Llundain WC2B 6NH

ffôn: 020 7276 8337

e-bost: philip.clarke@foodstandards.gsi.gov.uk

- 2.11 Os byddwch yn ysgrifennu at y Cydlynnydd Cwynion, bydd eich llythyr yn cael ei gydnabod cyn pen deuddydd gwaith o'i dderbyn. Ar ôl iddo ddod i law, anfonir ymateb llawn atoch cyn pen 20 diwrnod gwaith. Os na fydd hyn yn bosibl, byddwn yn esbonio pam ac yn rhoi gwybod pa bryd y byddwch yn cael ymateb llawn.
- 2.12 Os ydych yn dal i deimlo'n anhapus, cewch ofyn i'r gŵyn gael ei chyfeirio at Brif Weithredwr yr ASB. Os na fydd hyn yn datrys y broblem a'ch bod yn parhau'n anfodlon, cewch wneud cais i Gomisiynydd Seneddol y DU ar gyfer Gweinyddiaeth (yr Ombwdsmon) ymchwilio i'r gŵyn a'r modd yr aethpwyd i'r afael â hi. Bydd angen i chi ysgrifennu at Aelod Seneddol gan ofyn iddo gyfeirio'r gŵyn at yr Ombwdsmon.
- 2.13 Os bydd a wnelo cwyn â thoriad difrifol o'n Cynllun Iaith Gymraeg, bydd darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg mewn grym.
- 2.14 **Nodyn pwysig:** os na fyddwch yn cwyno'n benodol am yr ASB neu ei gwasanaeth ond eich bod am gwyno neu roi gwybod i ni am fater megis hylendid gwael mewn siop fwyd neu fater safonau masnach megis cam-labelu, ni ddylech ddefnyddio'r drefn gwyno hon. Yn hytrach, dylech edrych am y manylion cyswllt perthnasol ar gyfer y swyddogion sy'n gyfrifol am orfodi safonau bwyd yn eich ardal leol. Mae'r manylion hyn ar gael yn adran 'Gorfodi' (Enforcement) ein gwefan www.food.gov.uk

Cynllunio a chyflwyno gwasanaeth

Polisïau, deddfwriaeth a mentrau

- 3.1 Mae ein polisïau, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r Cynllun hwn. Byddant yn cefnogi'r Gymraeg a byddant, lle bynnag y bo'n bosibl, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau bob dydd. Pan fyddwn yn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu neu weithredu polisïau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd sy'n cael eu harwain gan sefydliadau eraill, rydym yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n gyson â'r Cynllun hwn.
- 3.2 Pryd bynnag y bo'n bosibl:
- bydd ein polisïau, ein mentrau a'n gwasanaethau yn helpu i gynnal cymunedau traddodiadol Cymraeg
 - rydym yn sicrhau bod deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth newydd yn annog defnyddio'r Gymraeg
 - mae ein dogfennau ymgynghori yn trafod y berthynas rhwng y Gymraeg a'r polisïau, y mentrau a'r gwasanaethau sy'n cael eu datblygu.



Darparu gwasanaethau

3.3 Ein harfer yw:

- sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg
- rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Ein swyddogaethau rheoleiddio a'r gwasanaethau sy'n cael eu gweithredu ar ein rhan gan drydydd partion

3.4 Mae unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti yn gyson â darnau perthnasol y Cynllun hwn, pan fo'r cytundebau neu'r trefniadau hynny'n ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan, dyrannu trwyddedau a mathau eraill o ganiatâd.

Gwasanaeth Hylendid Cig

3.5 Mae ein Hasiantaeth Weithredol, y Gwasanaeth Hylendid Cig (GHC), yn gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn. Mae'r GHC wedi paratoi ei Gynllun Iaith Gymraeg ei hun sydd ar gael ar ein gwefan yn food.gov.uk/multimedia/pdfs/welsh/mhswelshlangscheme.pdf

Safonau ansawdd

3.6 Mae gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o'r un ansawdd a byddant yn cael eu darparu yn ôl yr un amserlen.

Dyfarnu grantiau a benthyciadau

3.7 Wrth ddyfarnu grantiau a benthyciadau ar gyfer gweithgareddau i'w cynnal yng Nghymru, byddwn yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg. Wrth wneud hyn, byddwn yn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddyfarnu grantiau, *Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion yn Ymwneud â'r Gymraeg*.

Ymdrin â siaradwyr Cymraeg

Gohebiaeth

- 4.1 Ein harfer ar gyfer llythyrau a negeseuon e-bost yw:
- pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg a bod angen ymateb, byddwn yn ymateb yn Gymraeg
 - mae ein hamser targed i ymateb yr un peth yn Gymraeg a Saesneg
 - wrth gychwyn gohebiaeth ag unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, bydd yr ohebiaeth yn ddwyieithog, oni bai ein bod yn gwybod bod yn well ganddynt ohebu yn Gymraeg yn unig neu yn Saesneg yn unig
 - wrth anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyrau i sawl derbynnydd yng Nghymru, bydd yn ddwyieithog, oni bai ein bod yn gwybod bod yn well gan yr holl dderbynwyr ohebu yn Gymraeg yn unig neu yn Saesneg yn unig
 - os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg o ohebiaeth yn cael eu cyhoeddi ar wahân, byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd
 - bydd y System Sgorio (sydd ar gael ar Fewnrwyd yr ASB) yn pennu a fydd atodiadau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog ai peidio
 - bydd pob gohebiaeth Gymraeg y byddwn yn ei chyflwyno ar ffurf copi caled yn cael ei llofnodi
 - bydd yr holl ohebiaeth e-bost a gyflwynwn o Gymru yn dwyn llofnod dwyieithog
 - bydd llofnodion awtomatig ar e-bost, ymwadiadau, negeseuon 'allan o'r swyddfa' ac unrhyw wybodaeth safonol arall a ddarperir gan staff ASB Cymru yn ddwyieithog (bydd geiriad ar gael ar y fewnrwyd i gynorthwyo staff).
- 4.2 Byddwn yn datblygu system i gofnodi dewis iaith y rheiny y mae'n well ganddynt ohebu â ni yn Gymraeg.
- 4.3 Lle bo'r ohebiaeth yn dechnegol iawn neu'n hir iawn, defnyddir y System Sgorio i bennu'n wrthrychol a oes angen ei chyhoeddi'n Gymraeg, yn ddwyieithog neu'n Saesneg yn unig.

Llythyrau ynghylch penderfyniadau

- 4.4 Os bwriad llythyr penderfyniad yw cyfleu polisi i gynulleidfa ehangach o lawer na'r rheiny sy'n chwarae rhan uniongyrchol yn yr ymchwiliad, neu weithdrefn statudol arall, rydym yn ystyried y dylid ei drin, o dan y cynllun hwn, fel cyhoeddiad.

Cyswllt dros y ffôn

- 4.5 Ein harfer yw sicrhau bod modd i'r cyhoedd siarad Cymraeg neu Saesneg pan fyddant yn ffonio ASB Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â hyn:
- bydd ein holl staff sy'n gallu siarad Cymraeg a dysgwyr profiadol yn ASB Cymru yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog ac yn defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb neu lais-bost
 - bydd gweddill staff ASB Cymru yn ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog syml, boed yn "Bore da" neu'n "Prynhawn da" cyn parhau yn Saesneg
 - os bydd y sawl sy'n ffonio yn dymuno siarad Cymraeg, bydd ein switsfwrdd yn ceisio cysylltu'r alwad â siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad
 - os bydd rhywun yn ffonio un o'n llinellau uniongyrchol ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond na all y person sy'n derbyn yr alwad siarad Cymraeg, byddant yn ceisio trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr Cymraeg ei iaith sy'n gymwys i ddelio â'r ymholiad



- os na fydd siaradwr cymwys ar gael i ateb yr ymholiad, rhoddir dewis i'r sawl sy'n ffonio gael galwad yn ôl gan siaradwr Cymraeg, a hynny cyn gynted â phosibl, neu barhau â'r alwad yn Saesneg, neu gyflwyno ei ymholiad yn Gymraeg drwy lythyr neu e-bost.
- 4.6 Pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth neu gyfleusterau tebyg i roi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd, ein harfer fydd darparu gwasanaeth Cymraeg. Hysbysebier hyn ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn gyda neges awtomatig ar y dechrau yn rhoi cyfle i'r sawl sy'n ffonio ddewis iaith.

Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru

- 4.7 Byddwn yn darparu cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn ein cyfarfodydd cyhoeddus oni bai i ni sicrhau y byddai'n well gan bawb ddefnyddio'r un iaith. Bydd gwahoddiadau a hysbysebion ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog. Byddant yn nodi naill ai y bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael, neu byddant yn gwahodd y cyhoedd i roi gwybod ymlaen llaw beth yw eu dewis iaith. Byddwn yn rhoi gwybod i'r rheiny sy'n mynychu cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd ar gael. Byddwn yn annog cyfraniadau yn Gymraeg.
- 4.8 Ein harfer yw:
- darparu agendâu, papurau a gwybodaeth arall (ac eithrio papurau gan westeion allanol ac yn unol â'r System Sgorio) ar gyfer cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg
 - sicrhau bod siaradwyr Cymraeg cymwys yn mynychu fel bo'r angen
 - cyhoeddi adroddiadau neu bapurau a gynhyrchir yn sgil cyfarfodydd cyhoeddus yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd yng Nghymru

4.9 Wrth i ni drefnu neu fynychu cyfarfodydd â'r cyhoedd, boed wyneb yn wyneb neu drwy ddefnyddio fideogynadledda neu offer tebyg, byddwn yn nodi dewis iaith ar y cyfle cyntaf posibl. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod aelod cymwys o staff Cymraeg ei (h)iaith' ar gael i ddelio â'r rheiny sydd â'r Gymraeg yn ddewis iaith. Os na fydd siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, byddwn yn cynnig dewis i gynnal y cyfarfod yn Saesneg, drwy gyfrwng Cyfieithu ar y Pryd (Cymraeg > Saesneg), neu ddelio â'r pwnc drwy ohebu yn Gymraeg.

Ymwneud arall â'r cyhoedd yng Nghymru

4.10 Pan fyddwn yn cynnal arolygon cyhoeddus, yr arfer fydd cyfathrebu yn gyfan gwbl â'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Lle bynnag y bo'n ymarferol, gofynnir i ymatebwyr a fyddant am ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg.

4.11 Ein harfer yw:

- asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau cyffelyb i'r cyhoedd
- sicrhau bod cyhoeddiadau dros systemau uchelseinydd yng Nghymru yn cael eu gwneud yn Gymraeg ac yn Saesneg
- sicrhau bod arddangosfeydd clywedol, teithiau awdio neu gyfryngau rhyngweithiol y byddwn yn eu paratoi ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru yn ddwyieithog.



Ein hwyneb cyhoeddus

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

- 5.1 Byddwn yn cynnal ein holl waith hysbysebu a chyhoeddusrwydd yng Nghymru yn ddwyieithog mewn ffordd sy'n trin y ddwy iaith yn gyfartal. Bydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus a deunyddiau hysbysebu ac arddangos y byddwn yn eu defnyddio yng Nghymru yn cael eu llunio'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar wahân, bydd y ddwy fersiwn o faint, amlygrwydd ac ansawdd cyfartal, a bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch.
- 5.2 Bydd hysbysebion a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu ddeunyddiau tebyg) sy'n cael eu dosbarthu'n bennaf neu yn gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar wahân, bydd y ddwy fersiwn o faint, amlygrwydd ac ansawdd cyfartal, a bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yr un mor hygyrch. Mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith, bydd hysbysebion cyhoeddus yn Gymraeg yn unig.
- 5.3 Bydd ein hymgyrchoedd hysbysebu, boed ar y teledu, yn y sinema, ar y radio neu ar y rhyngwrdd, (sydd wedi'u targedu at gynulleidfaoedd yng Nghymru) yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod




oriau rhaglenni Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio sy'n cael eu darlledu yn ystod oriau radio Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg. Ein harfer yw osgoi defnyddio is-deitlau Cymraeg neu drosleisio hysbysebion i'r Gymraeg.

- 5.4 Bydd dulliau o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.
- 5.5 Yng Nghymru, bydd yr holl adnoddau a gaiff eu harddangos ar arddangosfeydd, stondinau neu ar Drêlar Adnoddau ASB Cymru yn ddwyieithog ac yr un mor weledol a hygyrch â'i gilydd. Byddwn yn talu sylw i'r angen i ddelio ag ymholiadau yn y ddwy iaith a bydd ein trefniadau staffio yn adlewyrchu lleoliad y digwyddiad a phwnc yr arddangosfa. Bydd staff sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n dysgu'r iaith yn gwisgo bathodynau 'Iaith Gwaith' Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cyhoeddiadau

- 5.6 Os yw cynulleidfa darged cyhoeddiad yn cynnwys cynulleidfa yng Nghymru, ein harfer, p'un a yw'r deunydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu fel arall, yw:
- cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen ddwyieithog os mai dogfen ASB Cymru ydyw. Os mai dogfen ASB y DU ydyw, bydd fersiwn Gymraeg a Saesneg ar wahân
 - lle cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle y byddai un ddogfen yn rhy hir neu swmpus neu os mai dogfen ASB y DU ydyw), byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn o faint ac ansawdd cyfartal, yr un mor hygyrch a bydd y naill fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall. Bydd y ddwy fersiwn yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd.
- 5.7 Os na fydd deunyddiau ar gael yn rhad ac am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad mewn un iaith. Bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un peth.



- 5.8 Byddwn yn defnyddio System Flaenoriaethu i gategoreiddio eitemau fel A, B, (B2 neu B2) neu C. Caiff yr hyn a nodir yng Nghategori A eu cyfieithu bob amser. Caiff yr hyn a nodir yng Nghategori B eu cyfieithu yn unol â'r System Sgorio. Ni fydd eitemau Categori C yn cael eu cyfieithu o gwbl.

Gwefannau

- 5.9 Bydd adran Cymru ein prif wefan yn gwbl ddwyieithog. Bydd eitemau a roddir ar ein gwefannau eraill yn ddwyieithog.
- 5.10 Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ail-ddylunio ein gwefannau cyfredol, byddwn yn ystyried dogfen y Bwrdd, *Canllawiau a Safonau ar gyfer Meddalwedd Dwyieithog*, ac unrhyw gyngor arall a gyflwynwyd gan y Bwrdd o safbwynt datblygu gwefannau.



Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiedig

- 5.11 Ein harfer yw sicrhau bod ein holl ffurflenni (gan gynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau) a'r holl ddeunyddiau esboniadol atodol i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru:
- ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg ac yn Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen; neu
 - lle cyhoeddir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle y byddai un ddogfen yn rhy hir neu swmpus), byddwn yn sicrhau bod y ddwy fersiwn o faint ac ansawdd cyfartal, yr un mor hygyrch, a bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall. Bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd.
- 5.12 Lle byddwn yn rhoi gwybodaeth ar ffurflenni Cymraeg eu hiaith a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg. Lle byddwn yn rhoi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog, oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan y derbynwyr dderbyn yr wybodaeth yn Gymraeg yn unig neu yn Saesneg yn unig.
- 5.13 Lle bo sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.
- 5.14 Byddwn yn llunio rhaglen i'w chytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i gynyddu nifer y ffurflenni sydd ar gael yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Hunaniaeth gorfforaethol

5.15 Mae gennym hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, ein manylion cyswllt, ein logo, ein sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog ar yr holl ddeunyddiau sy'n arddangos ein hunaniaeth gorfforaethol. Mae hyn yn cynnwys deunydd ysgrifennu a deunyddiau megis cardiau busnes, bathodynau adnabod, blaen-dudalennau ffacs, pasys, tocynnau, gwahoddiadau a cherbydau. Gallwn ddefnyddio brandio uniaith Gymraeg ar gyfer rhai mentrau.

Arwyddion yn ASB Cymru

5.16 P'un a ydynt yn cael eu gosod am y tro cyntaf, neu'n cael eu gosod o'r newydd, ein harfer yw sicrhau bod ein holl arwyddion parhaol a dros dro, gan gynnwys arwyddion electronig, sy'n rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd yn:

- ddwyieithog
- ymdrin â'r Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal o ran maint, darllenadwyedd ac amlygrwydd
- gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân
- cael eu gosod yn ddelfrydol ochr yn ochr, gyda'r Gymraeg ar y chwith. Pan fydd hi'n anorfod i un iaith ymddangos uwchlaw'r llall, bydd y Gymraeg uwchlaw'r Saesneg.

Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

5.17 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a roddir mewn papurau newydd Saesneg neu gyfryngau tebyg sy'n cael eu dosbarthu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran maint, fformat, ansawdd ac amlygrwydd – p'un a ydynt yn cael eu cynhyrchu ar ffurf ddwyieithog neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau yn y wasg Gymraeg yn Gymraeg.

- 5.18 Yn y cyfryngau Saesneg, gall swyddi lle mae gallu yn y Gymraeg yn hanfodol gael eu hysbysebu'n Gymraeg gyda disgrifiad byr yn Saesneg. Gall hysbysiadau recriwtio a roddir mewn cyfnodolion Saesneg a chyhoeddiadau eraill a ddosberthir ledled y DU fod yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Os felly, gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog, neu yn Gymraeg yn unig gyda disgrifiad byr yn Saesneg.
- 5.19 Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a roddir mewn manau eraill yng Nghymru yn ddwyieithog.

Datganiadau i'r wasg a chyswllt â'r cyfryngau

- 5.20 Byddwn yn hyrwyddo hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yr ASB yng Nghymru drwy ein cyswllt â'r wasg Gymraeg yng Nghymru.
- 5.21 Bydd datganiadau i'r wasg ar gyfer y cyfryngau darlledu yng Nghymru yn cael eu cyflwyno yn Gymraeg ac yn Saesneg. Lle bo'n bosibl, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i wneud cyfweiliadau â'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg.
- 5.22 Bydd datganiadau i'r wasg yn cael eu rhyddhau yn Saesneg yn unig pan fyddant i'w dosbarthu i'r cyfryngau torfol yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn unig.
- 5.23 Pan fyddwn yn rhoi datganiadau i'r wasg ar ein gwefan, ein harfer fydd eu postio yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr un pryd.
- 5.24 Ein nod yw darparu gwasanaeth newyddion llawn i'r cyhoedd yn y ddwy iaith. Ein harfer safonol fydd darparu gwasanaeth newyddion ar ein gwefan Gymraeg.

Rhybuddion Bwyd ac Alergedd

- 5.25 Bydd y rheiny sydd wedi cofrestru i dderbyn y gwasanaeth hwn drwy negeseuon testun yn cael dewis ym mha iaith yr hoffent dderbyn yr wybodaeth – Cymraeg neu Saesneg. Bydd y negeseuon testun hyn yn cael eu hanfon ar yr un pryd pan fydd adnodd yr Uned Iaith yn caniatáu i hynny ddigwydd.

Rhoi'r Cynllun ar waith

Staffio

6.1 Mae angen i'n swyddfeydd yng Nghymru fod â staff Cymraeg a chanddynt sgiliau digonol a phriodol er mwyn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth llawn yn Gymraeg. I'r perwyl hwn, ein nod yw:

- gweithredu Strategaeth Sgiliau Dwyieithog (gan ddefnyddio'r Fframwaith ALTE³) i adnabod y swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol (gellir diffinio'r gofyniad hwn fel cydran o weithle neu dîm)
- fel rhan o'r Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, cynnal arolygon o dro i dro, er mwyn pennu nifer, gallu a lleoliad y staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, gan gynnwys staff sydd wrthi'n dysgu'r Gymraeg
- adnabod y staff hynny sydd am ddysgu'r Gymraeg
- cymharu canlyniadau'r ymarferion hyn er mwyn adnabod timau lle ceir prinder sgiliau Cymraeg
- ymateb i brinder sgiliau Cymraeg drwy ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi yn yr hirdymor.

Recriwtio

6.2 Wrth recriwtio staff, rydym yn cael ein llywio gan yr wybodaeth a gesglir yn sgil y gweithdrefnau a ddisgrifir ym mharagraff 6.1 uchod. Lle bernir bod rhuglder yn y Gymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, bydd hyn yn cael ei ddatgan mewn cymwyseddau a hysbysebion swydd. Lle na cheir ymgeiswyr Cymraeg addas am swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, bydd y sawl a benodir yn cael ei hyfforddi i ddysgu Cymraeg.

6.3 Gellir penodi ymgeisydd di-Gymraeg i swydd lle bernir bod y Gymraeg yn hanfodol, ond lle y gellir caniatáu amser i ddysgu'r iaith. Yn yr achosion hyn, mae dysgu'r Gymraeg i'r cymhwysedd angenrheidiol, cyn pen cyfnod rhesymol i'w gytuno, yn amod cyflogaeth.

³ Defnyddir y Fframwaith ALTE, a ddatblygwyd gan y Gymdeithas i Brofyrwr Ieithoedd yn Ewrop (ALTE), ar lefel Ewropeaidd i ddisgrifio'r hyn y mae unigolion sy'n dysgu ieithoedd tramor yn ei gyflawni, a'r safonau ar gyfer pennu gallu unigolyn mewn iaith benodol. Mae'n cyflwyno chwe lefel o safonau sgiliau iaith, sy'n disgrifio beth ddylai dysgwyr allu ei wneud o ran darllen, gwranddo, siarad ac ysgrifennu ar bob lefel.

- 6.4 Lle na ellir dod o hyd i ymgeiswyr Cymraeg addas i swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu lle y penodwyd ymgeisydd di-Gymraeg sydd wrthi'n dysgu'r iaith, byddwn yn gwneud trefniadau dros dro er mwyn darparu'r gwasanaeth Cymraeg. Er enghraifft, byddwn yn defnyddio staff sy'n gallu'r Gymraeg o fannau eraill yn ein sefydliad er mwyn darparu rhannau o'r gwasanaeth.
- 6.5 Bydd pecynnau gwybodaeth a ffurflenni cais yn cael eu darparu yn Gymraeg a Saesneg ar gyfer ein holl swyddi yng Nghymru.
- 6.6 Bydd gan y rheiny sy'n ymgeisio am swydd gydag ASB Cymru hawl i gynnal eu cyfweiliad naill ai'n Gymraeg neu'n Saesneg, a hynny gyda chymorth gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn ôl y galw. Os cynhelir y cyfweiliad drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n debygol y bydd y Panel Cyfweld am holi cwestiynau yn Saesneg hefyd er mwyn profi gallu ieithyddol yr ymgeisydd.

Hyfforddiant iaith

- 6.7 Anogir ein staff i ddysgu'r Gymraeg neu i wella eu crap ar yr iaith. Rydym yn cefnogi'r rheiny sy'n dymuno gwneud hyn. Byddwn yn ariannu'r hyfforddiant hwn ac yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau sy'n dilyn fframwaith ALTE yn ystod oriau gwaith. Bydd eu cynnydd hefyd yn cael ei gofnodi yn eu Cynlluniau Rheoli Perfformiad.
- 6.8 Byddwn hefyd yn mynd ati i gynnig gwasanaeth mentora mewnlol rhwng aelodau o staff ASB Cymru sy'n rhugl yn Gymraeg a dysgwyr er mwyn i'r dysgwyr gael arfer eu sgiliau ieithyddol newydd yn y gweithle.

Hyfforddiant galwedigaethol

- 6.9 Byddwn yn datblygu gallu ein staff Cymraeg i weithredu yn Gymraeg drwy ddarparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, lle bynnag y bo'n ymarferol.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

- 6.10 Byddwn yn darparu ar gyfer yr angen i gynnig gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, ac yn gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn, wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu cyfredol er mwyn sicrhau eu bod yn ein galluogi i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, ac yn gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn.

- 6.11 Wrth i ni ddatblygu neu gaffael systemau TGCh i'w defnyddio er mwyn darparu gwybodaeth electronig i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn ystyried *Canllawiau a Safonau ar gyfer Meddalwedd Dwyieithog* Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Gweithio mewn partneriaeth

- 6.12 Pan mai ni yw'r arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaethu'r cyhoedd yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn. Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol a arweinir gan sefydliad arall, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio.
- 6.13 Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r Cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn.

Bathodynnau 'Iaith Gwaith'

- 6.14 Bydd staff ASB Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg neu sy'n ddysgwyr yn gwisgo bathodynnau 'Iaith Gwaith' Bwrdd yr Iaith Gymraeg er mwyn i gwsmeriaid allu eu hadnabod. Byddwn yn trafod â Bwrdd yr Iaith i weld a fydd modd gwneud defnydd pellach o'r logo e.e. gyda llofnodion electronig.

Trefniadau mewnol

- 6.15 Mae'r mesurau a geir yn y Cynllun hwn yn dwyn **awdurdod**, cefnogaeth a chymeradwyaeth llawn ein sefydliad. Mae gan reolwyr **gyfrifoldeb** i weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w gwaith.
- 6.16 Rydym wedi sefydlu Uned Iaith Gymraeg fewnol sydd â'r adnoddau i sicrhau bod yr ASB yn cydymffurfio â'r Cynllun. Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol Cymru yw'r swyddog sy'n gyfrifol am sicrhau y cydymffurfir â'r Cynllun. Cyfarwyddwr ASB Cymru yw Hyrwyddwr y Gymraeg. O dan y Ddeddf, y Prif Weithredwr sy'n atebol.
- 6.17 Rydym wedi paratoi **cynllun gweithredu** manwl i'w gytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a fydd yn nodi sut y byddwn yn sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r Cynllun hwn, a byddwn yn ei ddiweddarau'n

barhaus. Bydd y cynllun gweithredu yn dod i rym ar y dyddiad y daw'r Cynllun i rym. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar y cynnydd yn erbyn pob targed.

- 6.18 Bydd y Cynllun yn cael **cyhoeddusrwydd** gerbron ein staff a'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi mewn man amlwg ar ein gwefan.
- 6.19 Byddwn yn cynhyrchu **canllawiau desg**, neu ganllawiau tebyg, er mwyn i'n staff sicrhau eu bod yn gwybod sut i roi'r mesurau a geir yn y Cynllun diwygiedig hwn ar waith. Bydd canllawiau desg cyfredol, neu ganllawiau tebyg y bydd ein staff yn eu defnyddio, yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r mesurau a geir yn y Cynllun hwn.
- 6.20 Byddwn yn trefnu sesiynau **briffio a hyfforddi** er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth staff o'r Cynllun hwn, ac i esbonio sut y bydd yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd. Byddwn yn sicrhau mai dim ond **cyfieithwyr** neu gyfieithwyr ar y pryd cymwys a ddefnyddiwn i helpu i ddarparu'r Cynllun hwn.
- 6.21 Bydd **unrhyw ffurf ar gyswilt** â'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'r Cynllun hwn yn delio'n benodol ag ef, yn cael ei wneud mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y Cynllun hwn.

Monitro

- 6.22 Byddwn yn monitro ein cynnydd o ran rhoi'r Cynllun hwn ar waith, a hynny yn erbyn y targedau a osodir yn y cynllun gweithredu. Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd cyfredol yn cynnwys cyfeiriadau at gynnydd o ran rhoi'r Cynllun hwn ar waith, fel y bo'n briodol.
- 6.23 Byddwn yn anfon adroddiadau monitro i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ein cynnydd o ran rhoi'r Cynllun hwn ar waith, pan fyddant yn gofyn am hynny.

Adolygu ac addasu'r Cynllun

- 6.24 Byddwn yn adolygu'r Cynllun hwn cyn pen pedair blynedd wedi iddo ddod i rym. Hefyd, o dro i dro, gall fod angen i ni adolygu'r Cynllun, neu gynnig ei addasu oherwydd newid yn ein swyddogaethau, neu yn yr amgylchiadau rydym yn gweithredu'r swyddogaethau hynny ynddynt neu am unrhyw reswm arall. Ni wneir newidiadau i'r Cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Atodiad A

System Blaenoriaethu Cyfieithu

Canllawiau i staff yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar ba ddogfennau y dylid eu cynhyrchu'n ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg). Mae'n anochel na fydd y System Flaenoriaethu yn rhestru pob math o ddogfen a greir gan yr ASB. Os na allwch ddod o hyd i'r union fath o ddogfen yn y rhestr isod, dylech ddewis categori addas ar sail gymharol wrth asesu a oes angen i'r ddogfen gael ei chyfieithu. Os oes gennych unrhyw amheuaeth, cysylltwch â'r Uned Iaith Gymraeg:

ffôn: 029 2067 8969

e-bost: welsh.language.translation.unit@foodstandards.gsi.gov.uk

Categori A – Rhaid cyfieithu

- Agendâu (ar gyfer cyfarfodydd yng Nghymru)
- Cofnodion Cyfarfodydd Agored a gynhelir yng Nghymru
- Deunyddiau addysgiadol ar gyfer ysgolion yng Nghymru
- Eitemau i'w harddangos yn gyhoeddus yng Nghymru, e.e. sticeri, poster, hysbysiadau rhybuddio
- Ffurflenni cais / tystysgrifau a deunyddiau perthnasol ar gyfer gwobrau yng Nghymru, e.e. Afal
- Ffurflenni cais ar gyfer cynlluniau'r ASB sydd ar waith yng Nghymru
- Ffurflenni i'r cyhoedd / diwydiant yng Nghymru (oni bai eu bod yn rhai technegol)
- Gohebiaeth safonol (e.e. llythyrau / e-bost) â rhanddeiliaid yng Nghymru
- Gwahoddiadau i randdeiliaid yng Nghymru
- Gwefannau ar gyfer defnyddwyr yr ASB yng Nghymru sy'n berthnasol i'r cyhoedd yng Nghymru
- Holiaduron / arolygon i'r cyhoedd yng Nghymru
- Hysbysebion ar gyfer y wasg yng Nghymru
- Hysbysebion swydd / ffurflenni cais / gohebiaeth ag ymgeiswyr ar gyfer swyddi yng Nghymru
- Hysbysiadau / datganiadau i'r wasg / eitemau newyddion (oni bai eu bod yn berthnasol i Loegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn unig)
- Llyfrynau / taflenni / pamffledi ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru
- Llythyrau ymgynghori
- Taflenni / pamffledi / cardiau / e-gardiau ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru

Categori B – Defnyddiwch y System Sgorio


- Adroddiadau ac adroddiadau blynyddol
- Atodiadau i bapurau pwyllgor
- Blog y Prif Wyddonydd (ei gyfraniadau ef yn unig)
- Codau ymarfer
- Datganiadau a bwletinau ystadegol
- Dogfennau cyfarwyddyd
- Dogfennau ymchwiliadau cyhoeddus
- Dogfennau ymgynghori
- Fframweithiau gwasanaeth
- Memoranda esboniadol
- Papurau ymchwil
- Pecynnau hyfforddi ar gyfer pobl broffesiynol
- Rhybuddion Alergedd (Yn aml, caiff y rhain eu rhyddhau ar frys. Byddant felly yn Saesneg yn unig)
- Rhybuddion Bwyd (Yn aml, caiff y rhain eu rhyddhau ar frys. Byddant felly yn Saesneg yn unig)
- Strategaethau
- Ymatebion swyddogol i adroddiadau ac ati

Categori C – Dim angen cyfieithu

- Cyfrifon (oni bai eu bod yn rhan o adroddiadau blynyddol)
- Dogfennau contract
- Drafftiau gwaith
- Eitemau ar gyfer 'Foodweb'
- Eitemau i'w cylchredeg yn Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon yn unig
- "Feedback"
- "FSA News"
- Gwybodaeth fewnol a gaiff ei rhyddhau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (gellir darparu crynodeb 100 gair yn Gymraeg)
- Papurau a ddarperir gan drydydd partiön nad ydynt o dan contract
- Taflenni i'w dosbarthu mewn cynadleddau a ddarperir gan gyrff neu unigolion allanol

Atodiad B

Siart Lif Cyfieithu ar y Pryd



Os bydd arnoch eisiau'r wybodaeth hon ar ffurf arall – megis awdio, print bras, Braille – cysylltwch â ni.

ffôn: 029 2067 8969

e-bost: wales@foodstandards.gsi.gov.uk

neu **ysgrifennwch at:**

Lowri Roberts
Pennaeth yr Uned Iaith Gymraeg,
Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru,
Llawr 11,
Tŷ Southgate,
Wood St,
Caerdydd CF10 1EW

Swyddog Atebol:

Wyn Thomas,
Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol,
Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg yn www.food.gov.uk neu gan y swyddog cyswllt a enwir uchod.

This document is also available in English on www.food.gov.uk or from the contact given above.

